Senedd Cymru | Welsh Parliament

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical | Services for care experienced children: exploring radical reform

Ymateb gan Gofal Cymdeithasol Cymru | Evidence from Social Care Wales

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor,

Yn dilyn cais am wybodaeth gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwaith yr ymchwiliad i 'wasanaethau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal: edrych yn fanwl ar ddiwygio radical', gweler isod ychydig o wybodaeth bellach. Rydym hefyd yn amlinellu ein safbwyntiau ar y blaenoriaethau ehangach y gofynnwyd amdanyn nhw yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**Pwysau ar y gweithlu: Maint y pwysau a'r llwyth gwaith ar staff yng ngwasanaethau plant awdurdodau lleol a'u heffaith ar y tair agwedd o'n hymchwiliad.**

Yn ein gwaith gydag arweinwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol, rydym yn clywed adroddiadau cyson o lefelau uchel o bwysau ar y gweithlu. Mae strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol[1] yn tanlinellu pwysigrwydd llesiant y gweithlu yn ogystal â themâu i ganolbwyntio ar recriwtio, siâp y gweithlu a chyflenwad.


Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i wella'r broses o gasglu a dadansoddi data'r gweithlu. Data'r gweithlu ar gyfer 2022 oedd yr ail flwyddyn lle casglwyd data o'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol gyfan yng Nghymru. Mae'r ymarfer yn gofyn i bob darparwr gofal cymdeithasol ddarparu manylion y bobl sy'n gweithio iddyn nhw a'r swyddi maen nhw'n eu gwneud. Cyflwynwyd y broses o gasglu data'r gweithlu yn flynyddol fel un casgliad data unedig gan y Fframwaith Perfformiad a Gwella a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020. Disodlodd nifer o gasgliadau gwahanol yn ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol a oedd yn dyblygu ymdrech ac nid oedd yn darparu un set ddata a oedd yn cynrychioli'r sector cyfan.

Rydym yn gallu darparu data a gasglwyd o ddata blynyddol y gweithlu ar gyfer 2022 ac yn gallu cymharu â data 2021. Mae data wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol plant. Yn achos ein data, mae hyn yn golygu'r bobl hynny sy'n gweithio mewn timau gofal cymdeithasol plant a gofal preswyl i blant. Mae'r rhain yn bobl sy'n cael eu cyflogi mewn amrywiaeth o rolau, ac nid gweithwyr cymdeithasol yn unig.

Mae'r dadansoddiad cychwynnol o ddata'r gweithlu cenedlaethol a gasglwyd ddiwedd 2022 yn awgrymu bod 1,716 o weithwyr cymdeithasol yn gweithio yn rheng flaen gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru. Mae'n gynnydd o ychydig dros 3% o'i gymharu â ffigurau 2021.

[1] Strategaeth y gweithlu | Gofal Cymdeithasol Cymru

Nid yw pawb sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol plant yn weithwyr cymdeithasol cymwys, ac mae rhai gweithwyr cymdeithasol mewn swyddi rheoli. Fel cyfanswm, mae 4,774 o bobl yn gweithio i dimau gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru.




Yn anecdotaidd, rydym yn clywed bod gwasanaethau cymdeithasol plant yn cael trafferth recriwtio gweithwyr cymdeithasol profiadol, ac mae hyn bellach wedi ymestyn i faterion recriwtio cyffredinol.

Mae proffilio diweddar o gofrestru'r gweithlu yn rhoi cipolwg pellach ar y gweithlu:

- 73% o weithwyr cymdeithasol yn gweithio mewn awdurdodau lleol (gostyngiad o 2.3% ers 2017)
- Trosiant o 0.18% ar gyfer plant a 2.21% ar gyfer oedolion
- Amcangyfrifir (2022) bod angen 326 o weithwyr cymdeithasol cymwys newydd bob blwyddyn i ateb y galw amcangyfrifedig am ofal a chymorth

Mae adroddiad Gofal Cymdeithasol Cymru Gweithlu gwaith cymdeithasol sy'n addas ar gyfer y dyfodol | Gofal Cymdeithasol Cymru yn tanlinellu rhai o'r heriau sy'n cael eu hwynebu, gan gynnwys:

- Mae nifer y myfyrwyr ar gyrsiau cymhwyso gwaith cymdeithasol yng Nghymru wedi gostwng 25% ers 2016
- Ar gyfartaledd, dim ond 202 o weithwyr cymdeithasol cymwys, o'r 326 sydd eu hangen arnom yng Nghymru bob blwyddyn, sy'n ymuno â'r proffesiwn
- Mae gan Gymru lai o weithwyr cymdeithasol fesul 10,000 o bobl nag unrhyw wlad arall yn y DU.

Mae adroddiad wedi'i gyhoeddi i edrych ar effaith y pandemig ar weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Mae nifer o argymhellion wedi'u gwneud i gefnogi datblygiad gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ac i gynyddu eu hyder i ymarfer. Dyma'r ddolen i'r adroddiad

https://gofalcymdeithasol.cymru/straeon-newyddion/adroddiad-covid-19-yn-datgelu-fod-angen-cymorth

Yn ddiweddar bu newidiadau i fwrsariaethau hyfforddi i gefnogi recriwtio i lwybrau cymhwyso a gellir dod o hyd i fanylion fan hyn https://gofalcymdeithasol.cymru/straeon-newyddion/bwrsariaethau-i-gynyddu-ar-gyfer-myfyrwyr-gwaith-cymdeithasol-syn-dechrau-eu-hastudiaethau-o-fis-medi Cytunwyd yn ddiweddar hefyd fod y llwybr galwedigaethol peilot ar gyfer cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ystyried yn gyfwerth â blwyddyn gyntaf gradd gwaith cymdeithasol, llwybr a ariennir yn llawn drwy'r fframweithiau prentisiaeth. Mae sgyrsiau cychwynnol hefyd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â photensial datblygu prentisiaeth gradd gwaith cymdeithasol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio gyda'r sector i gynhyrchu cynllun y gweithlu ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol, a gellir dod o hyd iddo fan hyn https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/strategaeth-gweithlu/cynllun-gweithlu-gwaith-cymdeithasol-2022-i-2025 ac mae'n tanlinellu'r ystod o gamau i gefnogi'r gweithlu gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ystod Haf/Hydref 2022, cynhaliodd Gofal Cymdeithasol Cymru ymarfer cwmpasu i gefnogi gwaith trawsnewid Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom gyfweld â phob un o arweinwyr rhanbarthol gwasanaethau plant yng Nghymru, ynghyd ag arweinwyr strategol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru, Cyngor Llywodraeth Leol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Ceisiodd gasglu a dadansoddi arbenigedd i benderfynu ar argymhellion i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau statudol i blant a phobl ifanc agored i niwed yn ystod y 1-3 blynedd nesaf. Rhannwyd adborth y cyfweliadau gyda grŵp rhaglen Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2022, gan gynnwys canfyddiadau thematig ac argymhellion. Amlygodd y cyfweliadau bryderon allweddol mewn perthynas â phwysau ar y gweithlu:

- Recriwtio a chadw staff
- Y defnydd o staff asiantaeth
- Morâl ac ymdeimlad o beidio cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod
- Y gallu i gynllunio'r gweithlu o fewn awdurdodau lleol, yn benodol ar gyfer gwasanaethau plant
- Cynllunio'r gweithlu mewn perthynas â dileu elw ac uwchraddio darpariaethau preswyl awdurdodau lleol i blant.

Serch hynny, tanlinellodd y cyfweliadau feysydd o arfer da ac adborth positif wrth awdurdodau lleol a rhanbarthau. Yn benodol, cafodd llwybrau 'datblygu eich hun', sy'n galluogi awdurdodau lleol i gefnogi'r staff presennol i gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol, ei ystyried yn bositif iawn o ran galluogi gweithwyr medrus newydd i gael cyfleoedd i symud ymlaen. O 9 Chwefror 2023 ymlaen, rydym wedi cael 138 o fyfyrwyr newydd yn dechrau naill ai blwyddyn un neu flwyddyn dau o'r radd mewn gwaith cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyllid sydd wedi'i roi i awdurdodau lleol dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gefnogi'r dulliau "tyfu eich hun". Mae'r cyllid hwn i'w barhau fel rhan o flwyddyn grant 23/24 ac mae bellach

wedi cyrraedd ei lefel uchaf o £309,000 ledled Cymru, wedi'i neilltuo i gefnogi'r dull hwn. Mae adborth o’r ymarfer cwmpasu gydag arweinwyr strategol yn awgrymu bod y dull hwn hefyd yn cefnogi diwylliannau gweithio cadarnhaol gan ei fod yn meithrin llwybrau dilyniant a chyfraddau cadw da. Roedd adborth yn awgrymu bod y dull hwn hefyd yn cefnogi diwylliannau gweithio positif a chyfraddau da o ran cadw staff. Drwy'r gwaith cwmpasu, amlygwyd hefyd bod natur ymyrraeth gynnar a gwaith cymorth i deuluoedd ymhlith plant a theuluoedd sydd ar fin mynd i mewn i’r system ofal, yn aml yn derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid grant yn gwneud cynaliadwyedd, datblygiad gwasanaethau a dilyniant yn heriol, a chafwyd teimlad cryf ar draws y cyfweliadau hynny y byddai ffynonellau cyllid cynyddol a chynaliadwy yn helpu i gefnogi a datblygu gwasanaethau ymhellach a chadw staff medrus sydd â’r nod o gefnogi teuluoedd i aros gyda’i gilydd.
Fel y gwyddoch, mae gwaith sylweddol ar y gweill i gefnogi datblygiad y gweithlu drwy strategaeth y gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae’r cynllun a gyhoeddwyd fan hyn https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/strategaeth-gweithlu/cynllun-gweithlu-gwaith-cymdeithasol-2022-i-2025. Bydd diweddariad ar y cynnydd a wnaed ers ei lansio yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

**Dilyniant o ran trosiant gweithwyr achos a staff: Effaith newid gweithwyr achos ar ansawdd asesiadau a gofal.**

Mae data yn awgrymu trosiant o 0.18% ar gyfer gwasanaethau plant (ystod o -14.63 i +33.33) sy’n cymharu â throsiant o 2.21% (ystod o -13.58 i +24.56) ar gyfer gwasanaethau i oedolion. Er bod hyn yn ymddangos yn isel yn gyffredinol, mae’n amrywio’n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Yn anecdotaidd, rydym yn deall y gallai amrywiad mewn cyflogau a thelerau ac amodau eraill gyfrannu at hynny, gydag awdurdodau lleol yn bwydo nôl nad yw’n anghyffredin i staff adael am gyflog uwch neu ‘bonws ymuno’ drwy ymuno ag awdurdod lleol arall. Gan fod data cyfweliadau ymadael yn brin ac yn brin o fanylion, nid yw'n bosibl darparu casgliadau ystyrlon. Mae Cyngor Llywodraeth Leol Cymru, SOLACE, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cydweithio i ystyried sut i symud yn fwy tuag at delerau ac amodau cyson ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar draws Cymru.


Nid ydym yn cadw data ar effaith newid gweithwyr achos ar ansawdd asesiadau a gofal. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi canfyddiadau arolwg https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/gwasanaethau-cymdeithasol-plant-cymru/ ac adolygiad tystiolaeth ar beth mae plant a’u teuluoedd yn meddwl am y gofal maen nhw’n ei dderbyn, sy’n cynnwys barn am drosiant/dilyniant staff https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/beth-mae-plant-a-phobl-ifanc-syn-derbyn-gofal-au-teuluoedd-yn-ei-feddwl-o-ofal/


**Cyfraddau swyddi gwag: Y cyfraddau swyddi gwag ar hyn o bryd a’u heffaith ar y tair agwedd o’n hymchwiliad.**

Dangosodd ffigurau swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol plant fod nifer y swyddi gwag wedi cynyddu 38.3% yn 2022 i 639. O’r rhain, roedd 451 (70.6%) yn swyddi


gwag a oedd wrthi'n edrych i gael eu llenwi. Roedd gweddill y swyddi gwag yn cael eu ‘cadw’, sy’n golygu nad oeddent yn edrych i gael eu llenwi ar y pryd.

Roedd dros 50% o’r swyddi gwag a nodwyd gan wasanaethau plant awdurdodau lleol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol cymwys.




Mae cyfraddau trosiant gofal cymdeithasol plant ar ei uchaf ymhlith gweithwyr cymdeithasol cymwys, gyda chynnydd net bach o weithwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.




**Staff asiantaeth Gwaith Cymdeithasol: Maint y defnydd o staff asiantaeth ar gyfer gofal cymdeithasol plant a'i effaith**

Mae rhywfaint o'r data yn awgrymu bod y defnydd o weithwyr asiantaeth mewn gwasanaethau plant wedi gostwng ychydig yn ystod y flwyddyn o 56 yn 2021 i 49 yn 2022. Roedd 85.6% o'r holl staff asiantaeth a ddefnyddiwyd mewn gwasanaethau plant yn weithwyr cymdeithasol cymwys. Serch hynny, cesglir y data hwn drwy ymgysylltiad tebyg i gyfrifiad. Mae hyn yn golygu ei fod yn dibynnu ar ddilysrwydd y data a ddarperir ac mae'n cynnig cipolwg o'r diwrnod hwnnw, felly ceir cyfyngiadau i'r broses adrodd. Mae dibyniaeth ar staff asiantaeth yn parhau i fod yn bryder allweddol, felly hefyd y risg y bydd ffioedd asiantaethau yn parhau i gynyddu.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym bellach yn cynnal ymchwil gyda gweithwyr asiantaeth i ddeall ymhellach eu cymhellion dros ddod yn weithwyr asiantaeth neu dros droi at waith asiantaeth, gan gynnwys sut maen nhw'n cefnogi eu darpariaethau pensiwn, datblygiad proffesiynol parhaus, absenoldeb salwch, etc. Bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei defnyddio i lywio cynigion cyflogaeth gan awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sy'n darparu darpariaeth gwaith cymdeithasol yn well e.e. CAFCASS. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu, er bod y gwahaniaethau mewn cyflog rhwng gweithwyr asiantaeth a staff parhaol yn cael eu hystyried yn ffactor yn y penderfyniad i weithio i asiantaeth, nid dyma oedd y ffactor pwysicaf ar y cyfan. Hyblygrwydd o ran faint o oriau a weithiwyd, pa fath o waith roedden nhw'n ei wneud, ble fyddai'r gwaith yn cael ei wneud a phryd, oedd y ffactor pwysicaf i'r rhan fwyaf o weithwyr asiantaeth y gwnaethon ni siarad â nhw. Yn gyffredinol, roedd hyn yn ystyriaeth bwysicach na'r anfanteision o weithio i


asiantaeth, fel peidio â chael eich talu am absenoldeb salwch, gyda thâl gwyliau, cyfraniadau pensiwn, a chyfleoedd hyfforddi yn cael eu darparu fel arfer gan yr asiantaethau. Mae'r adroddiad llawn yn debygol o fod ar gael yng Ngwanwyn 2023.

Rydym yn cefnogi gwaith sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gwmpasu dulliau posib o helpu i gefnogi marchnad gynaliadwy o weithwyr asiantaeth.


**Y gweithlu gofal preswyl: Sefydlogrwydd y gweithlu**

Mae data'r sector gofal preswyl i blant yn llai aeddfed na'r casgliad o ddata'r gweithlu wrth yr awdurdodau lleol, ac rydym yn llai hyderus gyda'r data hwn gan ei fod yn dal i ddatblygu ac yn dal i wella.


Gallwn gyflwyno rhai canfyddiadau cychwynnol. Dangosodd ein ffigurau fod 2,171 o unigolion yn gweithio mewn gofal preswyl i blant yng Nghymru. Mae dros 60% o'r gweithlu preswyl i blant yn gweithio'n annibynnol ar awdurdodau lleol ac yn gweithredu yn y sector preifat, fel menter gymdeithasol neu o fewn y trydydd sector.




Mae trosiant staff mewn gofal preswyl i blant yn uchel iawn, gyda chryn dipyn o symud yn y gwasanaeth. Ymunodd bron i chwarter y staff sydd yn y gweithlu ar hyn o bryd yn 2022.




Mae swyddi gwag mewn gofal preswyl i blant wedi cynyddu 43.6% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda swyddi gwag i'w llenwi a swyddi sy'n cael eu cadw ar gau yn cynyddu.




Mae angen edrych ar y data hwn yn erbyn cefndir o newid yn y sector. Mae awdurdodau lleol yn wynebu'r her o gynllunio ar gyfer gweithlu digonol gyda'r sgiliau priodol, a sicrhau hynny, wrth iddynt uwchraddio eu darpariaeth breswyl mewnol yn ddi-oed.

**Hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus lle bo'n berthnasol i bob un o'r tair agwedd o'n hymchwiliad.**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu grant dysgu a datblygu SCWWDP gwerth £10 miliwn, wedi'i rannu ar draws partneriaethau sy'n cael eu harwain gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, sy'n cynnwys yr holl wasanaethau preifat, trydydd sector a gofal maeth. Rydym yn casglu adroddiad monitro blynyddol ac mae'n cynnwys enghreifftiau sy'n dangos dulliau o gyflwyno cymwysterau, yn ogystal â chynigion DPP parhaus ar gyfer staff cofrestredig ac anghofrestredig.

Mae fframwaith newydd wedi'i ddatblygu i gefnogi'r rhaglenni datblygu ôl-gymhwyso ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Byddwn yn ystyried camau nesaf y datblygiad hwn yn ddiweddarach eleni.

Mae cydweithwyr yn ein tîm cofrestru a rheoleiddio yn edrych ar lwybrau am gyfleoedd 'dychwelyd i waith cymdeithasol' yn ogystal â chofrestru'r rhai a gymhwysodd mewn gwledydd eraill. Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru mewn dulliau cenedlaethol ehangach i archwilio hyn ymhellach.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi parhau i oruchwylio rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer y sector, yn bennaf ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ar gyfer y rhai mewn rolau rheolwyr tîm; rheolwyr canol; cyfarwyddwyr cynorthwyol (penaethiaid gwasanaethau) a chyfarwyddwyr. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu rhaglen 'darpar reolwyr canol'.

Yn ddiweddar, fe wnaethom lansio'r safonau hyfforddiant diogelu, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ar draws sectorau. Mae'r safonau hyn yn amlinellu gofynion hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n benodol i ddiogelu ac mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau. Mae'r grŵp prosiect wrthi yn datblygu fframwaith dysgu i amlinellu amcanion dysgu sy'n cyd-fynd â phob lefel o hyfforddiant, a disgwylir iddo gael ei lansio yn ddiweddarach yn 2023.

**Safbwyntiau ar flaenoriaethau sy'n berthnasol i bob un o'r tair agwedd o'n hymchwiliad**

Gofynnodd yr ymchwiliad hefyd i asiantaethau ystyried blaenoriaethau ar draws y tair agwedd. Isod ceir manylion ein safbwyntiau, ar ôl ystyried yr hyn a ddysgwyd gennym o bob rhan o'r cylch gwaith a gyflawnwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

**1. Cyn gofal: Lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel**

Amlinellwch **uchafswm o dri** prif flaenoriaeth ar gyfer diwygio gwasanaethau'n radical er mwyn lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel:

Blaenoriaeth 1:

| |
|---|
| Cynyddu digonolrwydd a chynaliadwyedd cymorth i deuluoedd a phobl ifanc, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol y tu allan i wasanaethau plant, i gefnogi adnabyddiaeth gynnar o angen, ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a chefnogi ffactorau diogelu i helpu plant ac i gryfhau teuluoedd a chymunedau. |

Blaenoriaeth 2:

| |
|---|
| Strategaeth Cymru Gyfan uchelgeisiol sy'n gallu rhoi cynllun hirdymor ar waith i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol o dlodi ac anghydraddoldeb yn ogystal ag ymateb i anghenion uniongyrchol y niferoedd cynyddol o blant sy'n byw mewn tlodi. Mae'r briff ystadegol Plant sy'n Derbyn Gofal yn nodi bod 58.9% o ymatebwyr yn teimlo bod tlodi yn ffactor 'pwysig' neu 'pwysig iawn' wrth ddylanwadu ar gyfraddau plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal. |

Blaenoriaeth 3:

Cyflawni dull cyson o asesu a rheoli risg yn y gymuned gyda theuluoedd, lle bo'n bosibl. Mae angen i hyn feithrin perchnogaeth aml-asiantaeth ar y cyd o ran risg a chreu diwylliant lle gellir clywed llais y teulu a'r plentyn mewn ffordd ystyrlon.

**2. Mewn gofal: Gwasanaethau o safon a chymorth i blant mewn gofal**

Amlinellwch **uchafswm o dri** prif flaenoriaeth ar gyfer diwygio radical o ran gwasanaethau i blant mewn gofal

Blaenoriaeth 1:

Cynyddu niferoedd y gweithwyr cymdeithasol a chadw'r gweithwyr hynny o fewn eu rolau. Byddai hyn yn helpu i sicrhau dilyniant o ran y perthnasoedd sydd gan blant sy'n byw mewn gofal gyda'u gweithiwr cymdeithasol, yn ogystal â sicrhau bod gan y gweithwyr hynny lwythi gwaith y gellir ymdopi â nhw a'u bod yn gallu rhoi amser a chymorth cyson i blant sy'n byw mewn gofal. Mae hyn yn allweddol i'w galluogi i gael perthnasoedd diogel gyda'r rhai sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau am eu bywyd.

Blaenoriaeth 2:

Argaeledd cadarn o ran lleoliadau preswyl therapiwtig a chymorth therapiwtig i blant sy'n byw gyda gofalwyr maeth. Sicrhau bod digon o leoliadau a sgiliau priodol gan staff i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn y ffordd sydd orau iddyn nhw, yn unol â'u hanghenion.

Blaenoriaeth 3:

Yn yr Alban, archwiliodd dull 'The Promise' o ddiwygio radical, y cysyniad o 'gariad yn y system ofal', lle ceir cyfleoedd i flaenoriaethu beth mae hyn yn ei olygu i blant yng Nghymru, a sut, yn genedlaethol, y gallwn sicrhau bod plant sy'n tyfu i fyny yn y system ofal yn teimlo eu bod yn cael eu caru ag yn ddiogel. Mae hyn yn adeiladu ar arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru ac yn cadarnhau ein gweledigaeth am arfer sy'n seiliedig ar berthnasoedd a chryfderau tra'n cydnabod pwysigrwydd rôl rhianta corfforaethol ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus, ac yn bwysicaf oll, ceisio cyflawni beth mae pob plentyn ei angen ac yn ei haeddu.  Fe wnaeth cynhadledd Gofal Preswyl i Blant 2021 gofleidio hyn fel rhan o'i thema. Cafwyd adborth positif sylweddol o bob rhan o'r sector a theimlad cryf o bwysigrwydd ei datblygu'n weledigaeth genedlaethol wrth gefnogi cymorth sy'n seiliedig ar berthnasoedd ac sy'n cael ei arwain gan blant, i blant sy'n byw mewn gofal.

**3. Ôl-ofal: Cymorth parhaus pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal**

Amlinellwch **uchafswm o dri** prif flaenoriaeth ar gyfer diwygio radical o ran y cymorth parhaus a ddarperir pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal:

Blaenoriaeth 1:

Ymrwymiad bod gan bob person ifanc yng Nghymru sy'n gadael gofal, yr hawl i le diogel a chefnogol i'w alw'n gartref. Datblygu cynnig cyson o ran tai â chymorth, gan

gynnig lle diogel i’w alw’n gartref i bob person ifanc sy’n gadael gofal, mewn amgylchedd lle gallant dderbyn cymorth parhaus.

Blaenoriaeth 2:

Parhad o’r cynllun peilot incwm sylfaenol, gan alluogi gwerthusiad manylach a gwell dealltwriaeth o’r hyn a ddysgwyd o ddull blaengar tuag at bolisi cymdeithasol a chymorth i’r rhai sy’n gadael gofal. O ystyried yr argyfwng costau byw ac effeithiau hysbys tlodi, bydd peilot estynedig yn caniatáu i fwy o bobl ifanc elwa yn ogystal â chyfleoedd i gasglu tystiolaeth ac i ddysgu dros gyfnod hirach.

Blaenoriaeth 3:

Cynnig cymorth pontio cyson ar draws Cymru i bobl ifanc 14-25 oed, sy’n galluogi dilyniant mewn perthnasoedd cefnogol, yn cefnogi’r person ifanc i gynllunio ar gyfer y broses bontio, llywio’r system a sefydlu beth sy’n bwysig iddyn nhw, a’u cefnogi i gyflawni hyn. Dylai cynnig holistig o gefnogaeth gydnabod croestoriadedd anfantais y mae pobl ifanc sydd wedi byw yn y system ofal yn ei wynebu a rhai o'r anghenion cymorth arbenigol a all fod ganddyn nhw. Mae hefyd yn cydnabod rôl barhaus y rhiant corfforaethol wrth gefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw archwilio eu hannibyniaeth a llywio eu ffordd drwy’r glasoed a’r angen am berthnasoedd cyson, diogel, yn ogystal â llwybrau at gyfleoedd a chymorth pan fydd ei angen arnyn nhw.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i waith y pwyllgor wrth gynnal ei ymchwiliad. Os gallwn ddarparu unrhyw wybodaeth bellach neu fod o gymorth, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Cofion cynnes,

Sue Evans

**Sue Evans**

Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru